CIMSPA

# Y Weledigaeth ar gyfer y Gweithlu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru



**Cyhoeddwyd:** Mis Mehefin 2025

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | 03 |
| Gwaith Bwrdd Datblygu Proffesiynol Cymru | 03 |
| **Y Weledigaeth ar gyfer y Gweithlu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru** | 05 |
| Darlun y gweithlu yng Nghymru (2025) | 06 |
| Cyfyngiadau ein Gwybodaeth – Beth Sydd Ar Goll? | 07 |
| Effaith Ehangach ar Gymru | 07 |
| Canlyniadau'r Weledigaeth | 08 |
| Alignment | 09 |
| Sut bydd hyn yn gweithio? | 10 |
| Os Na Fyddwn yn Gwneud Unrhyw Beth | 17 |
| Risgiau ac Ystyriaethau | 17 |
| **Atodiadau** | 18 |



CREDYDAU LLUNIAU:

Hoffai CIMSPA ddiolch i Frand Cymru Wales am ganiatáu defnyddio lluniau yn y ddogfen hon.


©Hawlfraint y Goron (2022) Cymru Wales


CYHOEDDEDIG GAN:

The Chartered Institute for the Management of Sport and Physical Activity

Wedi'i ymgorffori trwy Siarter Frenhinol
Rhif Cofrestru Elusen: 1144545

www.cimspa.co.uk

Mis Mehefin 2025

# Croeso

Croeso i'r Weledigaeth ar gyfer y Gweithlu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru 2025–2035. Crëwyd y weledigaeth hon gan Fwrdd Datblygu Proffesiynol CIMSPA yng Nghymru ar ran gweithlu'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol Cymru yn y cyd-destun hwn yn cynnwys cyflogeion ffurfiol (o bob math) ynghyd â'r ystod lawn o'r rhai sy'n cyfrannu at y sector – o wirfoddolwyr ffurfiol i'r rhai sy'n 'rhoi help llaw' pan fo'r amgylchiadau'n caniatáu.

## Gwaith Bwrdd Datblygu Proffesiynol Cymru

CIMSPA, y Sefydliad Siartredig ar gyfer Rheoli Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, yw'r corff proffesiynol ar gyfer y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y DU. Ein cenhadaeth yw creu sector cydnabyddedig, gwerthfawr a chynhwysol y gall pawb fod yn rhan ohono. Fel rhan o'n gwaith yng Nghymru, sefydlodd CIMSPA Fwrdd Datblygu Proffesiynol Cymru yn 2023. Mae'r bwrdd yn cynnwys arweinwyr a chefnogwyr y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru i gynghori a llunio'r cymorth a'r gwasanaethau y mae CIMSPA yn eu darparu yng Nghymru.

Mae CIMSPA yn elusen gofrestredig, yn gwmni cofrestredig, ac wedi'i ymgorffori drwy Siarter Frenhinol.

Bwrdd Ymddiriedolwyr CIMSPA yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau ar y lefel uchaf yn CIMSPA. Cefnogir y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan nifer o is-bwyllgorau a phaneli, sy'n cynnwys arbenigwyr yn eu meysydd sydd wedi cael eu recriwtio oherwydd eu gwybodaeth arbenigol, eu sgiliau a'u profiad. Mae Bwrdd Datblygu Proffesiynol Cymru yn rhan annatod o strwythur llywodraethu CIMSPA, gan weithredu fel pennaeth ein llywodraethiant yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod gwaith CIMSPA yn cyd-fynd ag anghenion Cymru ac yn eu diwallu.
Gweler yr atodiadau (tudalen 19)

Crëwyd Bwrdd Datblygu Proffesiynol Cymru i gynrychioli, ymgynghori a chydweithredu.

Mae'r bwrdd yn cynrychioli'r sector er mwyn llywio'r drafodaeth genedlaethol ar gynllunio, datblygu a rheoli'r gweithlu.

Mae Bwrdd Datblygu Proffesiynol Cymru yn ymgynghori â sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol Cymru, yn ogystal ag â rhanddeiliaid y sector, i sicrhau bod y cyfeiriad y mae CIMSPA a phartneriaid eraill yn ei ddilyn yng Nghymru yn gwasanaethu'r sector yng Nghymru.

Mae Bwrdd Datblygu Proffesiynol Cymru yn cydweithredu ag amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau bod amcanion allweddol yn cael eu hyrwyddo er lles gweithlu'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru a'r rhai sy'n elwa ar ein gwasanaethau.




**Eglurhad:** Cynrychiolwyr y bwrdd — Cydweithwyr

*hamdden, cymuned, perfformiad, ymarfer corff a ffitrwydd, iechyd a lles, antur/awyr agored

Tabl llawn wedi'i restru fel atodiad

# Y Weledigaeth ar gyfer y Gweithlu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru

Gwyddom fod ein sector yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y boblogaeth; mae lefelau gweithgarwch corfforol mewn oedolion a phlant yn ddangosyddion allweddol o iechyd a lles y boblogaeth o fewn Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

O ystyried hyn, mae'n rhesymol credu bod ein sector yn chwarae rôl sylfaenol ym maes iechyd, lles a hapusrwydd y boblogaeth yng Nghymru, gan helpu i warchod dyfodol y GIG, gofal cymdeithasol ac economi Cymru. Rydym yn gwneud hyn drwy gyfrannu at greu Cymru iachach a mwy llewyrchus.

Mae angen i sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol Cymru gael y bobl gywir, yn y rolau cywir, gyda'r sgiliau cywir, i wella bywydau pobl sy'n byw yng Nghymru. Boed hynny'n Rheolwr Dyletswydd mewn canolfan hamdden ym Merthyr Tudful, yn Arweinydd Gweithgarwch mewn canolfan awyr agored yng Ngwynedd, yn hyfforddwr gwirfoddol mewn clwb chwaraeon cymunedol yng Nghaerdydd, yn Rheolwr Datblygu Chwaraeon yn y gymuned yn Sir Benfro neu'n ymddiriedolwr yn y ganolfan nofio genedlaethol yn Abertawe.

Drwy roi llais i'r gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gallwn lobïo ac eiriol dros effaith ac anghenion y sector cyfan. Mae gwaith ein sector yn sylweddol, ar lefel leol a chenedlaethol, ac wrth hyrwyddo hyn, rydym yn gobeithio newid y ffordd y caiff ein sector ei weld, ysbrydoli pobl i fod eisiau bod yn rhan ohono, a sicrhau enw da a darpariaeth unigryw i Gymru ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn dod yn sector cryfach, lle caiff ein gwerth ei gydnabod yn fewnol ac yn allanol, mae angen gweithlu cymwys a gydnabyddir yn broffesiynol, sy'n deall eu cyfraniad at greu Cymru iachach, hapusach a mwy cyfoethog. Drwy gynyddu gwerth ymddangosiadol y gweithlu, rydym yn gobeithio ysgogi mwy o fuddsoddiad, cefnogaeth a chydnabyddiaeth iddo. Ein pobl yw ein hased mwyaf gwerthfawr, felly mae'n hanfodol bod cynllunio, datblygu a rheoli'r gweithlu yn gwbl flaenllaw fel rhan allweddol o'r ateb i ryddhau potensial ein proffesiwn yng Nghymru.



**952**
o gyflogwyr
yn y sector

Tua
**54k**
o gyflogwyr yn gweithio i Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol
gyda'r cyflogwyr yn cael eu rhannu

**Trothwy refeniw**
**£5.6B**

## 5 swydd gorau ym maes C&GC yn 2024:

- Hyfforddwr Personol/Hyfforddwr Ffitrwydd
- Gwarcheidwad Dŵr
- Hyfforddwr Chwaraeon
- Cynorthwyydd Gweithgareddau
- Hyfforddwr Pêl-droed



**56%**
gwryw

**44%**
benyw

**Cyfanswm ariannu buddsoddi**
**£586M**



## 5 sgil gyffredin uchaf:

- Cyfathrebu
- Gwasanaeth Cwsmer
- Dysgu
- Hyfforddi
- Rheoli

**59%**
mae microfenterau

**31%**
16-24 mlwydd oed

**28%**
25-34 mlwydd oed

GYV
**£3M**

Tua
**16k**
pobl mewn addysg chwaraeon



**45%**
yn cael twf sefydlog



**GYV yn ôl pob cyflogwr**
**£49k**

## 5 sgil arbenigol uchaf:

- Hyfforddi Chwaraeon
- Gwarcheidwad Dŵr
- Gweithio gyda Phlant
- Hyfforddiant a Datblygiad Rheoli
- Marchnata

Gweler yr atodiadau am ragor.

## Cyfyngiadau ein Gwybodaeth – Beth Sydd Ar Goll?

Mae'r un mor bwysig cydnabod y data a'r wybodaeth sydd ar goll ar hyn o bryd, gan fod hyn yn gallu arwain at wneud penderfyniadau heb wybodaeth. Er mwyn i'r sector yng Nghymru gael ei adeiladu ar ddata a gwybodaeth gadarn, rhaid i ni ddeall sut mae'r data presennol yn cyfyngu ar y darlun cyffredinol. Mae rhan o uchelgais y weledigaeth hon yn cynnwys llenwi'r bylchau data a gwybodaeth y mae'r sector yn eu hwynebu ledled Cymru. Mae'r atodiadau'n cynnwys rhestr o'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn adeiladu'r darlun o'r gweithlu yng Nghymru.



## Effaith Ehangach ar Gymru

Mae'r weledigaeth hon yn gosod gweithlu'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol wrth galon yr agenda atal yng Nghymru.

Y prif bryderon iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd yw cyflyrau cyhyrysgerbydol (32%), clefyd cardiofasgwlaidd (11%), anhwylderau sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau (37,058 o dderbyniadau unigol i'r ysbyty) ac anhwylderau iechyd meddwl (60%). Mae'r pryderon iechyd hyn yn costio bron i £1.3bn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru ac yn costio tua £9.6bn i economi Cymru. Rydym yn gwybod bod gweithgarwch corfforol yn sbardun i wella iechyd a lles unigolyn, ac mae cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp neu fod yn rhan o glwb chwaraeon yn cynnig ymdeimlad o berthyn hefyd. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ac felly'r bobl sy'n gyfrifol am ddarparu a rheoli'r sector, yn chwarae rhan hanfodol wrth greu amgylcheddau iach ac atal afiechyd a salwch.

Dangosodd Adroddiad Cyfranogwyr Actif y DU 2024 fod pobl yn ymddiried yn ein gweithlu, gydag 80% o gyfranogwyr yn nodi hyfforddwyr fel gweithwyr proffesiynol dibynadwy. Casglwyd hefyd yn yr adroddiad fod mwy o unigolion yn gwirio cymwysterau a phrofiad hyfforddwyr nag mewn blynyddoedd blaenorol. Gallwn dybio y bydd gweithlu o safon, a gydnabyddir yn broffesiynol, sy'n gweithredu ei sgiliau a'i gymwyseddau ac yn cyflawni ei botensial, yn denu mwy o gyfranogwyr ac, yn ei dro, yn cynyddu sefydlogrwydd sefydliadol.

Canlyniad sefydlogrwydd sefydliadol cynyddol yw twf y sector; mwy o gyfleoedd, cynnydd mewn buddsoddiad, amrywiaeth o rolau gyda llwybrau gyrfa clir, a chyflogau i gyflogeion sy'n adlewyrchu eu rolau a'u dyletswyddau.

Mae chwaraeon, symud a bod yn gorfforol actif yn cael effaith gadarnhaol ar werth cymdeithasol. Am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, caiff £4.44 ei greu mewn gwerth cymdeithasol yng Nghymru – boed hynny'n wylio timau cenedlaethol, bod yn rhan o glwb cymunedol, mynd i'r gampfa, cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu ddysgu nofio. Mae ein gweithlu'n dylanwadu'n uniongyrchol ar iechyd a lles pobl sy'n byw yng Nghymru, a hefyd yn cyfrannu at wella canlyniadau addysg, trosedd ac elw cymdeithasol ar lefel genedlaethol.

Mae'r gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn gyflogedig a gwirfoddol, yn ased mawr i Gymru o ran lleihau'r pwysau ar y GIG, gwneud Cymru'n lle gwych i fyw ynddo a sicrhau bod Cymru'n ffynnu fel cenedl.

## Canlyniadau'r Weledigaeth

Mae'n hollbwysig bod y weledigaeth hon yn aros yn berthnasol i ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru a'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol, ond mae hefyd yr un mor bwysig nad yw'r weledigaeth hon yn cael ei chreu dim ond i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth. Mae'n bodoli fel gweledigaeth fyw, uchelgeisiol sy'n rhoi ein sector yn flaenllaw o ran dod o hyd i atebion i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran iechyd, economi, sgiliau a lles pobl sy'n byw yng Nghymru. Mae ymrwymiad i gyflawni ein gwaith drwy ymgorffori'r egwyddorion gweithio a sicrhau bod ein canlyniadau'n cyd-fynd â fframweithiau, strategaethau a deddfwriaeth allweddol yng Nghymru (gweler yr atodiadau). Bydd ein dull o weithredu'n cynnwys cydweithredu, integreiddio, meddwl yn y tymor hir, cynnwys y sector cyfan a'r rhanddeiliaid, ac ymrwymo i'r agenda atal.



### Cadarn ac amlbwrpas

Mae sector gwydn yn un sy'n barod ar gyfer y dyfodol, gydag arweinwyr sy'n gallu arloesi a chreu cyfleoedd newydd wrth i'r tirlun cymdeithasol a thechnolegol esblygu. Trwy gefnogi ein harweinwyr presennol a newydd ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, byddwn yn gweld sector sy'n gallu addasu i newid ac esblygu yn unol ag anghenion poblogaeth Cymru.

### Dull cynhwysol

Datblygu ein gweithlu i ddeall a gwerthfawrogi profiadau byw merched a genethod, pobl ag anableddau, cymunedau ethnig amrywiol a'r bobl sydd, ar hyn o bryd, heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector, fel y rhai sy'n llai actif. Drwy gynyddu ymwybyddiaeth a gallu, gallwn greu amgylcheddau mwy cynhwysol a chefnogol lle gall pawb ffynnu. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y rhai sy'n dymuno gwirfoddoli neu ddilyn gyrfa yn y sector yn gallu gwneud hynny.

### Hunaniaeth Gymraeg

Mae Cymru'n genedl chwaraeon falch. Rydym eisiau cydnabod y bobl sydd wrth galon ein diwylliant chwaraeon ac eiriol dros eu cyfraniad at greu cymunedau croesawgar a chynhwysol sy'n hwyluso lles cymdeithasol a diwylliannol. Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlwg ac ar gael i bawb sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol.




### Gwella bywydau

Mae ein sector yn ffynnu pan fyddwn yn denu'r gorau, yn hyfforddi'r gorau ac yn cadw'r gorau. Gyda sicrwydd ansawdd a chydnabyddiaeth wrth galon ein gwaith, bydd ein pobl yn darparu gwasanaethau sy'n gwella bywydau pobl yng Nghymru ac yn hybu economi Cymru drwy wasanaethau gwerthfawr, cyfleusterau o safon uchel a chyfleoedd perthnasol.

### Gwella iechyd cenedlaethol

Mae ein gweithlu'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd poblogaeth Cymru. Drwy dynnu sylw at yr effaith hon a datblygu'r gweithlu i ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau ac ymyriadau sy'n diwallu anghenion pobl Cymru, gallwn gefnogi mwy o bobl i fyw bywydau iachach.

### Cefnogi cymuned

Mae canolbwyntio ar anghenion lleol ecosystemau chwaraeon a gweithgarwch corfforol Cymru yn golygu ffrwyno'r gymuned i gydweithio i ddod o hyd i atebion ar gyfer recriwtio, cadw, hyfforddi a datblygu, ac archwilio sut y gellir defnyddio'r system gyfan i gefnogi'r ateb lleol.

### Effaith gynaliadwy

Byddwn yn eiriol yn weithredol dros weithredu Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) y Cenhedloedd Unedig yn y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru drwy sicrhau bod penderfyniadau ac arweinyddiaeth y sector yn dylanwadu ar ymgorffori cynaliadwyedd, cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth fyd-eang yng nghyfundrefn addysg a hyfforddiant y gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.




## Sut bydd hyn yn gweithio?



**Cynllunio gweithlu gwell ar lefel leol:**

- Modelau gweithio datblygu gweithlu wedi'u sefydlu ym mhob rhanbarth partneriaeth chwaraeon.
- Dealltwriaeth glir o beth yw anghenion datblygu'r gweithlu ar lefel ranbarthol, a'r camau sydd eu hangen ar gyfer gwella sgiliau.
- Cyflogwyr y sector yn ymgysylltu â CIMSPA a sefydliadau eraill sy'n cefnogi i ddatblygu'r gweithlu drwy ymyriadau a hyfforddiant sydd â sicrwydd ansawdd.
- Sefydliadau addysgol lleol yn darparu hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol sy'n diwallu anghenion cyflogwyr lleol.

Am ragor o wybodaeth am ymyrraeth Sgiliau Lleol, gweler tudalennau 36–37 o'r CIMSPA strategy: Releasing the power of our profession

**Gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol:**

- Demograffeg y gweithlu sy'n adlewyrchu poblogaeth Cymru, ar lefel bwrdd ac ar lefel weithredol.
- Mwy o bobl yn eiriol dros ac yn arwain cyfleoedd sydd ag amrywiaeth a chynhwysiant yn greiddiol iddynt.
- Cynnydd yn y gydnabyddiaeth i fentrau amrywiaeth a chynhwysiant ar lefel genedlaethol, a'r ymwybyddiaeth ohonynt, drwy wobrau a chydnabyddiaeth.
- Cynnydd yn y gwerthfawrogiad o bwysigrwydd cael gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol wrth gyflawni'r weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.
- Byrddau, pwyllgorau a phaneli Cymru yn dod yn fwy amrywiol gydag unigolion sy'n gweithio yn y sector a'r tu allan iddo.
- Bydd sefydliadau'r sector yn dangos diwylliannau mwy cynhwysol, gan alluogi i weithlu amrywiol ffynnu.

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Y Gymdeithas Nofio ar gyfer Pobl Dduon – Creu Gweithgareddau Dŵr Diogel a Chynhwysol**

Sefydlwyd y Gymdeithas Nofio ar gyfer Pobl Dduon (BSA) yn 2020 i sefydlu lle diogel a chroesawgar sy'n annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr mewn cymunedau du a brown, gyda ffocws ar ddiogelwch dŵr. Mae'r BSA yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn trwy ddarparu rhaglenni wedi'u dylunio i gefnogi unigolion o gymunedau lle nad yw nofio a gweithgareddau dŵr yn norm, yn aml oherwydd ofn, diffyg gwybodaeth neu sgiliau, neu brofiadau trawmatig yn y gorffennol.

Mae'r rhaglen Together We Can (™) yn rhaglen am ddim, bum wythnos sy'n darparu gwybodaeth hanfodol am ddiogelwch dŵr i helpu'r cyfranogwyr a'u teuluoedd i aros yn ddiogel mewn dŵr ac o'i amgylch, gan fynd i'r afael â rhwystrau fel ofn, diffyg amser, hyder, neu allu. Mae'r rhaglen hefyd yn gweithredu fel porth i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddi feddwl am weithio mewn gweithgareddau dŵr.

Cefnogir sefydliadau partner gan y BSA i recriwtio a hyfforddi unigolion sydd yn gallu gwasanaethu fel modelau rôl ac ysbrydoli mwy o ymgysylltu cymunedol.

Ers lansio Together We Can™, mae'r BSA a'i phartneriaid wedi cefnogi athrawon gwirfoddol i ennill cymwysterau athro nofio Lefel 2 a grymuso aelodau o'r gymuned i arwain a hwyluso rhaglenni'r BSA yng Nghymru. O ganlyniad i'r ymgysylltu, mae athro gwirfoddol wedi cael ei benodi i fwrdd Nofio Cymru hefyd.

Cysylltwch â'r [Gymdeithas Nofio ar gyfer Pobl Dduon]





**Gwell enw da i'r sector:**

- Newid yn yr iaith a'r feddylfryd pan fydd y gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael ei drafod, ganddynt hwy eu hunain a phobl eraill.
- Cynnydd yn nifer yr aelodau o weithlu'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan gynnwys gwirfoddolwyr ffurfiol.
- Ein sector yn cael ei gynnwys ar yr agenda atal fel prif sbardun ar gyfer canlyniadau.
- Mwy o bobl, yn arbennig pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, yn dilyn gyrfa ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**ASTUDIAETH ACHOS**

**RMR Rehabilitation:**
**Hyfforddiant Personol Addasol**

Mae RMR Rehabilitation yn darparu hyfforddiant ymarfer arbenigol i bobl sy'n dioddef o effaith cyflwr niwrolegol, o anhwylderau cynyddol fel MS a chlefyd Parkinson i anafiadau i'r ymennydd, anafiadau i fadruddyn y cefn a phobl sydd wedi colli aelodau o'u corff. Mae gan eu hyfforddwyr yr wybodaeth, y penderfyniad a'r amynedd i roi sylw unigol a chefnogi pob un o'u cleientiaid ar eu taith adferiad.

Mae RMR Rehabilitation yn cydnabod pob un o'i hyfforddwyr yn broffesiynol; mae hyn yn rhoi hyder i'w cleientiaid i ymddiried yn addysg, sgiliau a chymwysterau eu hyfforddwr ond mae hefyd yn caniatáu i RMR Rehabilitation weithio'n eithriadol agos gyda'r sector iechyd.



"Rydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod ein cleientiaid yn cael eu cefnogi i'r lefel uchaf a dyna pam mae sicrhau ansawdd ein hyfforddwyr yn erbyn safonau proffesiynol CIMSPA yn bwysig. Mae'n wych dweud bod ein staff ni i gyd yn gymwys ac yn cael eu cydnabod fel uwch hyfforddwyr personol neu hyfforddwyr personol lefel hŷn sydd â gwybodaeth arbenigol am weithgarwch corfforol ac iechyd. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn golygu y gallwn weithio'n agos gyda ffisiotherapyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill gan eu bod yn gallu gweld a deall ansawdd hyfforddwyr RMR Rehabilitation."
**Rowan Ruffley, Rheolwr Gyfarwyddwr RMR Rehabilitation.**



**Defnydd effeithiol o wybodaeth a data:**

- Defnyddio Arsyllfa Ymchwil y Gweithlu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol i ddod o hyd i wybodaeth a data ar gyfer Cymru yn effeithiol.
- Meithrin gallu i sicrhau bod cynllunio gweithlu yng Nghymru yn canolbwyntio ar y dyfodol, gan ragweld tueddiadau, heriau a chyfleoedd.
- Adnodd mesur wedi'i ddilysu i fesur yn benodol effaith y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar iechyd a hapusrwydd unigolyn.
- Arfer gorau Cymru'n cael ei rannu'n rheolaidd gyda'r sector trwy weminarau CIMSPA, cyhoeddiadau a rhwydweithiau'r sector.
- Defnyddio a deall rôl AI a thechnoleg yn y sector, gan gynnwys cwmnïau technoleg, ymgynghorwyr a dylanwadwyr sy'n cyflwyno data a gwybodaeth i'r sector.
- Data canolog am amrywiaeth a chynhwysiant y sector o addysg i arweinyddiaeth.
- Dealltwriaeth well o'r gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r sector, demograffeg y gweithlu gwirfoddol, y mathau o wirfoddolwyr a'u hanghenion penodol gan y sector.

Am ragor o wybodaeth am Arsylfa Sgiliau Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y DU, gweler tudalennau 50–51 o'r CIMSPA strategy: Releasing the power of our profession



**Gweithlu sy'n cael ei gydnabod a'i werthfawrogi:**

- Y gweithlu yng Nghymru yn ennill ac yn cynnal eu cydnabyddiaeth broffesiynol trwy statws proffesiynol CIMSPA.
- Cyflogwyr yn y sector yn gwneud statws proffesiynol yn elfen hanfodol o bob swydd.
- Cynnydd yn nifer y gweithwyr proffesiynol Siartredig sy'n gweithio yn y sector yng Nghymru.
- Cynnydd yn y cyflogau ar gyfer pawb sy'n gweithio ym maes chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.
- Telerau ac amodau gwell ar gyfer ein gweithlu, sy'n cystadlu â sectorau eraill.
- Rhaglenni gwirfoddoli o ansawdd uchel yn cael eu defnyddio ar draws diwydiannau'r sector.

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Clare Jefferies FCIMSPA (Chartered), Portal Training**

Mae Clare Jefferies (FCIMSPA) yn cael ei chydnabod fel Uwch Reolwr Cymrawd Siartredig. Uwch Reolwr Cymrawd Siartredig yw'r statws proffesiynol uchaf a roddir gan CIMSPA ac mae'r safonau sydd eu hangen i gyflawni'r statws hwn wedi'u nodi yn safonau proffesiynol CIMSPA.

O ddydd i ddydd, mae Clare yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Portal Training. Fodd bynnag, mae Clare yn cyfrannu at y sector trwy fod yn aelod o sawl bwrdd a phwyllgor mewn sefydliadau chwaraeon. Mae Clare wedi helpu sefydliadau eraill trwy ei gallu i arwain, cyfeirio a chreu effaith mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys rhai gyda thâl a gwirfoddol. Mae statws proffesiynol Clare yn cydnabod ei sgiliau, ei llwyddiannau a'i heffaith ar y sector.

"Mae cael cydnabyddiaeth broffesiynol wedi rhoi safon glir i mi i'w dilyn o ran fy ngwybodaeth a fy nghymhwysedd fel Uwch Arweinydd / Cyfarwyddwr yn gweithio yn y sector."




"O fynd drwy'r broses a dod yn Uwch Reolwr Cymrawd Siartredig FCIMSPA (Siartredig), teimlaf ei fod wedi rhoi mwy o hygrededd i mi yn y sector ond hefyd ymdeimlad mawr o gyfrifoldeb i ddangos y safonau yn fy arferion dyddiol. Mae wedi rhoi teimlad o falchder i mi a hefyd ymdeimlad cryfach o berthyn a chadarnhad ffurfiol gan y sector. O safbwynt personol, mae wedi helpu i godi fy mhroffil i yn y sector ac felly rydw i'n teimlo'n fwy hyderus i hyrwyddo pwysigrwydd uwch arweinwyr yn cymryd rhan ac yn cael yr achrediad yma."

**System addysg gyfannol unedig:**

- Graddau, cyrsiau coleg, prentisiaethau a hyfforddiant galwedigaethol ledled Cymru sydd wedi eu cymeradwyo gan CIMSPA.
- Cynllun Lleoliad Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Cymru wedi ei ymgorffori mewn colegau a phrifysgolion, gyda phob dysgwr yn cael cyfleoedd lleoliad gyda sawl cyflogwr.
- Rhaglenni chwaraeon gwirfoddol yn cael eu defnyddio o fewn addysg, gyda chydnabyddiaeth fel gwobr Dug Caeredin.
- Darparwyr hyfforddiant yng Nghymru yn cynnig DPP a chyrsiau hyfforddi wedi eu cymeradwyo gan CIMSPA.
- Amrywiaeth o gyfleoedd DPP yn cael eu darparu gan y sector yng Nghymru.
- Dysgu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cyd-fynd â safonau perthnasol eraill.

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Cymeradwyaeth Addysg Uwch**

“Mae dod yn bartner Addysg Uwch CIMSPA wedi bod o fudd mawr i Brifysgol De Cymru trwy wella cyflogadwyedd ein graddedigion. Mae’r bartneriaeth hon yn sicrhau bod ein portffolio ni o gyrsiau’n cyd-fynd â safonau proffesiynol, gan ddarparu’r sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen i’r myfyrwyr bontio’n llyfn i’r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae’r gymeradwyaeth gan CIMSPA, unig gorff proffesiynol siartredig y sector, wedi gwella enw da’r brifysgol, gan ddenu darpar fyfyrwyr a meithrin cysylltiadau cadarn â’r diwydiant. Rydym yn dechrau gweld effaith y cydweithredu hwn trwy gyflogadwyedd cynyddol y graddedigion, sy’n cael eu cydnabod bellach am eu parodrwydd i ddiwallu gofynion y diwydiant.”

**PDC – Jay Probert, Pennaeth Pwnc ar gyfer Hyfforddi a Datblygu Pêl-droed**





**Sefydliadau cadarn a gwydn:**

- Datblygu arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol i wella effeithlonrwydd ac ychwanegu gwerth at y sector.
- Darparu llwyfan i sefydliadau gysylltu a gweithio ar y cyd ar atebion a gwasanaethau cydnabyddedig.
- Annog buddsoddiad parhaus a phwysig i'r sector.
- Marchnata rhagweithiol ac effeithiol ar ein sector ar draws pob cymuned yng Nghymru.

**ASTUDIAETH ACHOS**

**Cynhadledd Flynyddol Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon Cymdeithas Chwaraeon Cymru**

Bob blwyddyn, mae cynhadledd Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon Cymdeithas Chwaraeon Cymru yn dod ag arloeswyr ac unigolion brwd ynghyd sydd â brwdfrydedd dros hybu cynaliadwyedd yn y sector chwaraeon a hamdden.

Gyda'r nod o agor trafodaethau ynghylch rôl ein sector wrth hyrwyddo cynaliadwyedd, rhannu mentrau, ac edrych ymlaen at anghenion y sector yn y dyfodol o ran newid yn yr hinsawdd, dŵr glân, lleihau allyriadau, a gwneud Cymru'n wyrddach.

Mae'r digwyddiad yn rhoi cyfle i ddirprwyon wrando ar siaradwyr gwadd – o eiconau chwaraeon i uwch-weithredwyr sy'n arwain y ffordd mewn gweithredu cynaliadwy yn y byd chwaraeon – i rannu eu profiadau a'u doethineb ynghylch pwysigrwydd gwneud Cymru'n lanach ac yn wyrddach. Fel rhan o'r Gynhadledd Cynaliadwyedd mewn Chwaraeon, mae dirprwyon yn cael cyfle i roi eu geiriau ar waith. Bob blwyddyn, mae gwesteion yn cyfrannu at y nod cyffredinol drwy gymryd rhan mewn glanhau sbwriel a chodi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd amgylcheddol.

Yn 2024, daeth Kate Strong – beiciwr sydd wedi dal sawl record fyd-eang ac yn gyn-bencampwraig y byd mewn triatlon – â'r digwyddiad i ben drwy gyhoeddi ei hymgais i dorri record y byd, gan annog pawb i ymuno â hi wrth iddi geisio cyflawni'r glanhau afon fwyaf erioed.

Wedi'i alw'n Taff Tidy, daeth 1,327 o bobl o sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol Cymru at ei gilydd i lanhau Afon Taf ar yr un diwrnod, ar yr un pryd – gan dorri Record y Byd!









## Os Na Fyddwn yn Gwneud Unrhyw Beth

Mae'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru (a'r DU) yn sector pobl. Ein gweithlu ni yw ein cyfalaf. Er y gallai chwarae ar hap ddigwydd heb weithlu yng Nghymru, mae'n annhebygol iawn y byddai'r gwerth economaidd neu gymdeithasol presennol yn cael ei gyflawni heb bobl yn gyrru'r strwythur, y systemau, y gweithgareddau, y cyfleusterau, y gefnogaeth gan wirfoddolwyr neu'r digwyddiadau. Mae'r gweithlu yng Nghymru yn gyrru cynhyrchiant y sector, a heb weithlu o ansawdd, sydd wedi'i gydnabod, ni fydd ein sector yn gallu creu effaith ar gyfer y bobl sy'n byw yng Nghymru.

## Risgiau ac Ystyriaethau

Fel gyda phob gweledigaeth, mae'n bwysig deall y bydd Cymru yn newid yn ystod y 10 mlynedd nesaf ac, fel sector, mae angen i ni allu sganio'r gorwel. Mae risgiau y mae angen i ni eu hystyried a allai effeithio ar y weledigaeth hon. Gallai'r risgiau hyn gynnwys;

- Newidiadau polisi
- Newidiadau i strategaeth rhanddeiliaid
- Buddsoddiad y llywodraeth
- Gostyngiad mewn dysgwyr
- Deallusrwydd artiffisial a gwasanaethau'n dod yn awtomatig
- Newid hinsawdd

Mae gennym ddyletswydd i fod yn ymwybodol o'r risgiau hyn, addasu'n briodol, a chwilio am gyfleoedd i wella gweithlu'r sector ymhellach. Byddwn yn parhau i hyrwyddo ein sector a sut rydym yn llwybr i ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd i wella eu hiechyd a'u lles mewn byd sydd â'r potensial i greu ynysu, gwahanu a niwed.

# Atodiadau



# Atodiad 1 :

## Rhestr lawn o sefydliadau aelodau'r bwrdd a'u cysylltiadau / rhwydwaith i'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol

| Cynrychiolaeth bwrdd | Gyda phwy gallant gysylltu a chydweithio? |
|---|---|
| CIMSPA | Partneriaid Cyflogwyr |
| Chwaraeon Cymru | Partneriaid Addysg |
| Colegau Cymru | Colegau AB / Dysgwyr |
| Qualifications Wales | Partneriaid Cyflenwi |
| The Outdoor Partnership | Cyrff Siartredig Eraill (BASES) |
| Chwaraeon Anabledd Cymru | Llywodraeth y DU |
| Cymdeithas Chwaraeon Cymru | Diddordebwyr y Sector |
| Partneriaethau Chwaraeon Cymru | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol | Bwrddiau Atebolrwydd Sgiliau Lleol |
| Gweithrediadau Hamdden | Bwrdd Datblygiad Proffesiynol y DU |
| Chwaraeon Antur/Gweithgareddau Awyr Agored | Pwyllgorau Datblygiad Proffesiynol |
| Iechyd a Lles | Grwpiau Arbenigol e.e. Panel Ieuenctid |
| Ffitrwydd a Ymarfer Corff | UK Active |
| Chwaraeon Perfformiad | Llywodraeth Cymru |
| Chwaraeon Cymunedol | Partneriaethau Chwaraeon |
| Addysg Uwch | Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol |
| Addysg Bellach | Llywodraethu a Pholisïau Chwaraeon Cymru |
| Cyrff Dyfarnu | Partneriaid Cenedlaethol |
| Darparwyr Hyfforddi | Event Wales |
| Llywodraeth Cymru | Gweithredwyr Hamdden |

| Cynrychiolaeth bwrdd | Gyda phwy gallant gysylltu a chydweithio? |
|---|---|
| Trydydd Sector | Sefydliadau Chwaraeon Elusennol |
| Cyrff Arbenigol Amrywiaeth a Chynhwysiant | Grŵp Trawsbleidiol Chwaraeon |
| Arbenigwyr Ymchwil, Data a Mewnweledydd | Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol |
| | Ystafell Fasnach |
| | Awdurdodau Lleol |
| | Bwrdd Iechyd Rhanbarthol |
| | Gweithlu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol |
| | Rhwydweithiau Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol |
| | Gweithlu Chwaraeon Perfformiad |
| | Gweithlu Hyfforddi |
| | Gweithlu Hamdden |
| | Community Leisure UK |
| | Cymdeithas Prif Swyddogion Diwylliant a Hamdden |
| | The Outdoor Partnership |
| | Cymdeithas Twristiaeth Antur Cymru |
| | Gweithlu Gweithgareddau Awyr Agored |
| | Outdoor Alliance |
| | Agored |
| | Sefydliad Dysgu Awyr Agored |

| Cynrychiolaeth bwrdd | Gyda phwy gallant gysylltu a chydweithio? |
|---|---|
| | Cynllun Cysylltu Ymarfer Corff Cenedlaethol |
| | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Lleol |
| | Grwpiau Diddordeb Iechyd Penodol |
| | Y Gweinidog Iechyd |
| | Gymnasoedd a Chlybiau Iechyd Perchnogol Preifat |
| | Fforwmau Gweithlu Ffitrwydd |
| | Busnesau Bach a Chanolig |
| | Canolfannau Rhagoriaeth |
| | Gweithlu Chwaraeon Perfformiad |
| | Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol |
| | Sefydliadau Chwaraeon Proffesiynol |
| | Urdd |
| | Gweithlu Gwirfoddol |
| | Gweithlu Hyfforddi |
| | Grŵp Trawsbleidiol Senedd |
| | Myfyrwyr Addysg Uwch |
| | Chwaraeon Myfyrwyr Cymru |
| | BUCS |
| | Ymchwilwyr |
| | Medr |
| | Colegau Cymru |
| | Llais Ieuenctid |
| | Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid |
| | Myfyrwyr Addysg Bellach |
| | Cyrff Dyfarnu |

| Cynrychiolaeth bwrdd | Gyda phwy gallant gysylltu a chydweithio? |
|---|---|
| | Gweinidogion Addysg |
| | Fforwmau Canolbwyntiedig ar Amrywiaeth Ethnig |
| | Cymdeithas Nofio Du |
| | Street Games |
| | Sefydliadau Canolbwyntiedig ar Fenywod a Merched |
| | Chwaraeon Anabledd Cymru |
| | SportEd |
| | Adran Polisi a Datblygu Chwaraeon |
| | Senedd |
| | Gweithlu Gwirfoddol |
| | Sefydliadau Elusennol |
| | WCVA |
| | Qualifications Wales |
| | Observatory Ymchwil Gweithlu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol CIMSPA |
| | Partneriaid Addysg Uwch |
| | Sefydliadau Cymryd Gwirfoddol – Cenedlaethol a Rhanbarthol |
| | Cymorth Trydydd Sector Cymru |
| | Volunteer Involving Organisations – National and Regional |
| | Street Games |
| | Youth Voice |
| | CIMSPA Youth Panel |

# Atodiad 2

## Gwybodaeth am ddata a gwybodaeth

| Data a ofynnwyd amdano | Canlyniadau | Ffynhonnell | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyflogwyr | 911 | Data City | Dyma nifer y cwmnïau Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol (S&PA) sy'n gweithredu yng Nghymru ac wedi'u cofrestru yn Companies House. Felly, nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys pob sefydliad, er enghraifft, elusennau sydd ond wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a CICs. |
| | 48 | Comisiwn Elusennau | Yn cael ei ganfod o dan y gair allweddol 'chwaraeon'. |
| Statws cyflogwyr (sy'n lleihau, yn goroesi, yn tyfu) | Yn lleihau'n gyflym: 2.1% (n=19)<br>Yn lleihau: 3.4% (n=31)<br>Yn sefydlog: 45.4% (n=414)<br>Yn tyfu: 5.8% (n=53)<br>Yn tyfu'n gyflym: 7.0% (n=64)<br>Anhysbys: 36.2% (n=330) | Data Lens | Yn lleihau'n gyflym: llai na -20%, Yn lleihau: -20% i -10%, Yn sefydlog: -10% i 10%, Yn tyfu: 10% i 20%, Yn tyfu'n gyflym: dros 20% |
| Maint cyflogwyr | Microfenter: 59.7% (n=544)<br>Busnes bach: 12.4% (n=113)<br>Busnes canolig: 4.0% (n=36)<br>Busnes mawr: 2.1% (n=19)<br>Anhysbys: 21.8% (n=199) | Data Lens | Diffiniadau maint: Micro (1-9) Bach (9-49) Canolig (49-250) Mawr (250+) |
| Nifer y gweithwyr | 54601 | The Data City | Yn seiliedig ar ddata Companies House. Amcangyfrifir bod 54,601 o weithwyr yn gweithio i'r 911 o gwmnïau yn y adroddiad hwn. |
| Demograffeg gweithwyr | 56.3% Gwryw, 43.7% Benyw (er 2021)<br><br>16-24 mlwydd oed: 31.4%<br>25-34 mlwydd oed: 27.9%<br>35-44 mlwydd oed: 15.1%<br>45-54 mlwydd oed: 13.3%<br>55-64 mlwydd oed: 9.4%<br>65+ mlwydd oed: 2.9% | LightCast | Yn seiliedig ar 5 cod SOC ar gyfer y sector S&PA.<br><br>Data ethnigrwydd yn dim ar gael |

| Data a ofynnwyd amdano | Canlyniadau | Ffynhonnell | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Nifer y partneriaid addysgol (yn gweithredu yng Nghymru) | Addysg Bellach: 1<br>Addysg Uwch: 3<br>Darparwr Hyfforddiant: 43 | CIMSPA Directory | Partneriaid addysgol CIMSPA gyda chymwysterau, graddau a/neu CPD wedi'u cymeradwyo. |
| Data ariannol | Trosiant: £5,059,816,944<br>Cyfanswm ariannu buddsoddi: £586,130,000<br>GVA: £3,038,187,541<br>GVA fesul cyflogwr: £49,015 | Dealroom | GVA (Gwerth Ychwanegol Gros) yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned<br>(e.e. sefydliad, cyflogwr) sy'n cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. |
| Nifer y swyddi a gyhoeddwyd (cyflogwyr) | 1,696 o hysbysebion unigryw gan 313 cyflogwr<br>5 swydd S&PA uchaf yng Nghymru yn 2024:<br>Hyfforddwr Personol/Hyfforddwr Ffitrwydd (n=201)<br>Gwarcheidwad Dŵr (n=119)<br>Hyfforddwr Chwaraeon (n=111)<br>Cynorthwyydd Gweithgareddau (n=50)<br>Hyfforddwr Pêl-droed (n=46)<br>Hyd cyfartalog hysbysebion: 26 diwrnod | Lightcast | Mae hysbysebion unigryw yn golygu bod swyddi wedi'u rhannu fel un hysbyseb pan maent wedi'u hysbysebu ar wefannau lluosog.<br>5 sgil gyffredin uchaf:<br>Cyfathrebu<br>Gwasanaeth Cwsmer<br>Dysgu<br>Hyfforddi<br>Rheoli<br>5 sgil arbenigol uchaf:<br>Hyfforddi Chwaraeon<br>Gwarcheidwad Dŵr<br>Gweithio gyda Phlant<br>Hyfforddiant a Datblygiad Rheoli<br>Marchnata<br>5 tystysgrif a ofynnwyd amynt yn y swyddi S&PA:<br>Tystysgrif CIMSPA<br>Tystysgrif Hyfforddwr Personol<br>Aelodaeth CIMSPA<br>Cwrs Cymorth Cyntaf<br>Trwydded Yrru |

| Data a ofynnwyd amdano | Canlyniadau | Ffynhonnell | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cyflog cyfartalog | £26k y flwyddyn / £12.52 yr awr<br><br>Amrediad cyflogau a hysbyswyd: £10k - £83k y flwyddyn neu £5 - £40 yr awr. | | |
| Nifer y bobl sydd wedi cofrestru ar hyfforddiant sector | | | Dim ar gael |
| Nifer y myfyrwyr yn astudio chwaraeon mewn HE | 5666 | Stats Wales 22/23 | Chwaraeon a Hamdden Lefel 3 (pob math o gwrs): 2835<br><br>Addysg Gorfforol Lefel A Lefel 3: 687 (1 flwyddyn), 1325 (2 flynedd) |
| Nifer y bobl sydd wedi cofrestru ar ddysgu seiliedig ar waith. | 1157 | Stats Wales 22/23 | Prentisiaethau Lefel 2–3 sy'n gysylltiedig â Chwaraeon: 495<br><br>Prentisiaethau Sylfaen Lefel 2: 205<br><br>Arwain Gweithgareddau (20)<br>Ymarfer Corff a Ffitrwydd (180)<br>Rheoli Hamdden (5)<br><br>Prentisiaethau Lefel 3: 290<br><br>Ymarfer Corff a Ffitrwydd (160)<br>Rheoli Hamdden (90)<br>Rhagoriaeth Chwaraeon (10)<br>Datblygu Chwaraeon (30)<br><br>Prentisiaeth Uwch Lefel 4: 0 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n astudio chwaraeon mewn Addysg Uwch ledled Cymru. | 6795 | HESA | Gwyddorau chwaraeon ac ymarfer corff (hyfforddi, datblygu, ymarfer, therapi, technoleg): 4720<br><br>Twristiaeth, trafnidiaeth a theithio (yn cynnwys rheolaeth chwaraeon): 1665<br><br>Seicoleg gymhwysol (yn cynnwys seicoleg chwaraeon): 410 |
| Nifer y myfyrwyr Cymreig sy'n astudio cwrs chwaraeon yn y DU | 3165 | HESA | Lefelau 4 – 7<br>Yn cynrychioli 6% o'r holl gofrestriadau chwaraeon AU |
| Nifer gwirfoddolwyr y sector | | | Dim ar gael |

| Data a ofynnwyd amdano | Canlyniadau | Ffynhonnell | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Nifer staff y sector sy'n gweithio mewn ysgolion | | | Dim ar gael |
| Arian a wariwyd ar recriwtio ac hyfforddiant | | | Dim ar gael |
| Demograffeg bwrdd | Benywaidd<br>Amrywiol o ran ethnigrwydd<br>LHDTQIA+<br>Yn siarad<br>Cymraeg Anabledd<br>Statws priodasol<br>Cymdeithasol-economaidd | Sport Wales | Headline demographics on protected characteristics.<br>146 responses from a possible 400 (37%) |
| Data buddsoddi | Am bob £1 a fuddsoddir mewn Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru, ceir enillion cymdeithasol o £4.44 | Astudiaeth o Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad mewn Chwaraeon yng Nghymru | Diffinnir enillion cymdeithasol fel:<br>• Costau gofal iechyd<br>• Costau'r system cyfiawnder troseddol (h.y. gostyngiad mewn troseddu)<br>• Cynnydd mewn cynhyrchiant dynol (e.e. llai o absenoldebau salwch neu amser i ffwrdd o'r gwaith)<br>• Newidiadau mewn cyfalaf cymdeithasol (h.y. bywyd cymunedol gwell, e.e. mwy o wirfoddolwyr ar gyfer mentrau cymunedol)<br>• Lles goddrychol (h.y. effaith chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar iechyd meddwl, lles, a hapusrwydd unigolyn) |
| Demograffeg teithwyr | | | Lerpwl, Manceinion, Bryste. Beth yw demograffeg gweithlu'n teithio i ac o Gymru?<br>Dim ar gael |
| Mapio Cyfleusterau | | | Mathau o gyfleusterau y mae ein gweithlu yn gweithio ynddynt |
| Gweithlu'r Dyfodol | | Arolwg Diagnosis Sgiliau CIMSPA | Sut fydd y gweithlu yn y dyfodol, pa sgiliau fydd eu hangen arnynt? |
| Effaith Amgylcheddol | | | Pa effaith fydd gan yr amgylchedd ar y gweithlu a'r rolau sydd ar gael? |

| Data a ofynnwyd amdano | Canlyniadau | Ffynhonnell | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Ymlediad Iechyd yng Nghymru | Afeithiau cyhyrol esgyrn (MSK):<br>• 32% o boblogaeth Cymru (~974,000 o bobl).<br>• Cost MSK i'r GIG yng Nghymru £430m y flwyddyn<br>Clefyd Cardiovascular (CVD):<br>• Achosir 27% o'r holl farwolaethau yng Nghymru<br>• tua 340,000 o bobl yng Nghymru sy'n byw gyda CVD<br>• Cyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru £770m y flwyddyn<br>• Cost i economi Cymru £1.6bn y flwyddyn<br>Iechyd Meddwl (MH):<br>• 60% o oedolion yng Nghymru wedi profi pryder a oedd yn effeithio ar eu bywyd bob dydd<br>• Cost problemau iechyd meddwl £7.2bn y flwyddyn<br>• Problemau iechyd meddwl yn cyfrif am 11% (£1bn) o wariant y GIG yng Nghymru yn 2022-2023<br>Anawsterau Defnydd Sylweddau (2022-2023):<br>• 32,176 unigolyn wedi cael eu derbyn i'r ysbyty am gyflwr sy'n gysylltiedig ag alcohol<br>• 4,342 o dderbyniadau ysbyty cysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon<br>• £67m y flwyddyn yn cael ei wario ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau<br>• Cost niwed alcohol yng Nghymru'n cael ei amcangyfrif ar £800m y flwyddyn | Public Health Wales<br>British Heart Foundation Cymru<br>Mental Health Foundation<br>Prifysgol Caerdydd<br>Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Meddwl<br>Llywodraeth Cymru<br>Sefydliad Astudiaethau Alcohol | Nifer y bobl yng Nghymru sy'n profi problemau iechyd meddwl difrifol ddwywaith yn fwy na chyfnod y pandemig (11.7% i 28.1%) (Prifysgol Caerdydd, 2021).<br>Costau iechyd meddwl i'r economi yn deillio o golli cynhyrchiant, biliau gofal iechyd, a budd-daliadau cymdeithasol. |
| Ble mae'r gweithlu'n mynd i weithio? | | | Mathau o gyfleusterau ledled Cymru. |

# Atodiad 3

## Cyd-fynd â Deddfwriaeth

| Deddfwriaeth | Y Weledigaeth ar gyfer Cyfraniad Gweithlu Chwaraeon a Hamdden Cymru |
|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | Gweler tudalen X<br><br>Deddf gyswllt i gyd-fynd â phrif ddeddfwriaethau Cymru |
| Deddf Tlodi Modern 2015 (DU) | Atal cam-drin gwirfoddolwyr yn systematig, drwy gydnabod rhaglenni gwirfoddol cadarn a gweithio gyda'r sector i osod disgwyliadau clir ar ran y gwirfoddolwr yn y sector yng Nghymru a sut mae hyn yn wahanol i swyddogion cyflogedig. |
| Deddf Addysg Uwch a Chyfrannu Ymchwil 2022 | Gweithio gyda darparwyr addysg yn y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol i sicrhau eu bod yn deall a dehongli eu dyletswyddau, tra'n gweithredu egwyddorion y Ddeddf. |
| Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 (DU) | Hyrwyddo'r angen am gorff proffesiynol penodedig ar gyfer y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws y DU (Lloegr, Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon) er mwyn creu iaith gyffredin ar safonau a symudedd cydnabyddiaeth. |
| Deddf Sgiliau ac Addysg Ôl-16 2022 | Model sgiliau lleol i wella cynllunio gweithlu ar lefel leol sy'n ceisio dod â darparwyr addysg a chyflogwyr ynghyd i drafod bylchau sgiliau, atebion a chynllunio gweithlu. |
| Deddf Cymwysterau Cymru 2015 | Cydweithio gyda Chymwysterau Cymru i gynrychioli'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol a hyrwyddo'r gofyniad i sefydliadau dyfarnu a chynnwys cymwysterau nad ydynt yn radd i ateb anghenion cyflogwyr a dysgwyr, drwy ymgynghori a rhannu mewnwelediad y sector. |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 (DU) | Cysoni gwybodaeth y sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru i hyrwyddo cynhwysiant, tegwch a dealltwriaeth sylfaenol o bwysigrwydd egwyddorion a chanllawiau sy'n sail i'r Ddeddf. |

CIMSPA®

© The Chartered Institute for the
Management of Sport and Physical Activity

Incorporated by Royal Charter: RC000849
Charity registration number: 1144545

www.cimspa.co.uk
info@cimspa.co.uk